



# Polisi Datblygu Cynaliadwy

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu  
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau*  
*See Policy Review Timetable*



## Polisi Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ADCDFE

Yn Ysgol Dyffryn Conwy cydnabyddwn fod Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Rhaid gosod ADCDFE yng nghraidd y cwricwlwm ac ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol, gan gynorthwyo i greu ethos o gyfrifoldeb ar lefel leol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae **Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy** yn gymorth i'n disgyblion ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau i wneud penderfyniadau deallus ynghylch y ffordd rydym yn byw ein bywydau ac i wella ein hansawdd byw tra'n gwarchod y blaned ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Mae **Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang** yn galluogi ein disgyblion i ddeall y gwerthoedd a'r sgiliau sydd yn ein cynorthwyo i wneud penderfyniadau i feithrin byd teg a chynaliadwy.

### Eco-Gôd

**D** – Dinasyddion byd-eang, dinasyddion da

**A** – Arbedwch ynni trwy ddiffodd goleuadau a chyfarpar trydanol (e.e. cyfrifiaduron, sgriniau a pheiriannau argraffu)

**E** – Ein cyfrifoldeb ni yw amgylchedd yr ysgol a'r tir o'i chwmpas

**A** – Arbedwch, aildefnyddiwch ac ailgylchwch

**R** – Rhowch bob sbwriel yn y bin.

Er mwyn dysgu ein disgyblion a'n staff am faterion cynaliadwy a byd-eang, mae ein Eco Gyngor yn gyfrifol am sicrhau bod y côd uchod yn cael ei weld o gwmpas yr ysgol e.e. ar hysbysfwrdd yr Eco Gyngor ac ar nifer o bosteri o gwmpas yr ysgol sydd yn canolbwyntio ar ein defnydd o ynni a'r modd rydym yn edrych ar ôl ein hamgylchfyd e.e. gwaredu sbwriel..

Amlinellir naw cysyniad allweddol yng nghynghorion yr ACCAC ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Ymdrechwn i hyrwyddo'r cysyniadau hynny fel a ganlyn:

1. **Drwy'r Cwricwlwm:** Er bod pob pwnc yn cyfrannu tuag at ddatblygu ADCDFE trwy gyfrwng eu cynllun dysgu, rydym wedi blaenoriaethu cyfraniad pynciau allweddol fel Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth, ABCh a'r Fagloriaeth.
2. **Cysylltiadau gyda'r Amgylchedd a'r Gymuned:** Byddwn yn parhau i ddatblygu cysylltiadau a phartneriaethau gyda sefydliadau megis Ysgolion Eco, Ysgolion Masnach Deg ac Ysgolion Iach. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i annog gwarchodaeth gyfrifol a fydd yn codi proffil ADCDFE o fewn yr ysgol.
3. **Annog pawb sy'n cael ei effeithio i gyfrannu i'n darpariaeth ar gyfer ADCDFE ac i'w werthuso:** Eco Gyngor, Cyngor yr Ysgol a phob fforwm sydd gan y disgyblion, partneriaid yn y gymuned ac yn yr AALI (gan gynnwys Sodexo), Arweinyddion ar bob lefel, athrawon a staff cefnogol, llywodraethwyr a rhieni.
4. **Meithrin cysylltiadau Byd-eang a Chymunedol:** Byddwn yn ymgeisio i wneud cysylltiadau gydag ysgolion eraill – ysgolion sy'n bwydo Ysgol Dyffryn Conwy, ysgolion cynradd eraill ac ysgolion mewn gwledydd eraill.
5. **Adnoddau:** Byddwn yn ymgeisio i ganfod a datblygu trawsdoriad eang o adnoddau a gwybodaeth y gallwn ddefnyddio yn yr ysgol. Yn ogystal, rydym yn annog disgyblion i werthuso adnoddau er mwyn sicrhau eu bod yn cynrychioli golwg gytbwys ar y byd.

## 6. Cyfrifoldebau :

### **Cyd-lynydd ACDCFE: Pennaeth Cynorthwyol, Miss Llio Japheth**

**Rôl:** Bydd y Cydlynydd ACDCFE yn datblygu, yn codi ymwybyddiaeth, yn cefnogi ac yn gweithio gyda'i chydweithwyr i fonitro a gwerthuso'r ardal. Gellir darllen am ddatblygiadau pellach, gan gynnwys hyfforddiant, yng Nghynllun Gwella'r Ysgol ac yng nghylchred rheoli perfformiad yr ysgol.

### **Cydlynydd Ysgolion Eco a Hyrwyddwr yr Eco Gyngor : Mrs Anna S Roberts**

**Rôl:** Cydlynu gwaith yr Eco Gyngor. Gweithio mewn partneriaeth gyda Chydlynydd Iechyd yr ysgol, gyda'r Pennaeth Cynorthwyol (cyd-gysylltydd ABCh) a gyda'r ALL a sefydliadau cenedlaethol e.e. Cyngor Conwy, Sodexo, Ysgolion Gwyrdd/Eco Swyddog Ysgolion i ddatblygu rôl a dylanwad yr Eco Gyngor. Arolygu gwaith yr Eco Gyngor a'u cefnogi wrth iddynt glustnodi'r hyn sydd angen ei flaenoriaethu ac ymateb i hynny.

### **Eco Gyngor**

Arwain ACDCFE ar ran yr holl ddisgyblion, gan glustnodi'r hyn sydd angen ei flaenoriaethu, cynllunio a gweithredu blaenoriaethau a chynlluniau craidd, gan werthuso datblygiad ac adrodd yn ôl i'w cyd-ddisgyblion trwy gyfrwng Cyngor yr Ysgol, Fforwm Dosbarth a Blwyddyn, Gwasanaethau Boreol, Gwefan yr Ysgol a hysbysfwrdd yr Eco Gyngor.

### **Arweinyddion Canolig:**

**Rôl:** Gwerthuso a chynllunio ar gyfer datblygu ACDCFE o fewn eu pynciau, o fewn ystod eu cyfrifoldebau neu o fewn rhaglenni ABCh gwahanol flynyddoedd. Ymgynghori gyda'u cyswllt SMT a/neu y Cydlynydd ACDCFE er mwyn gwerthuso a chynllunio ar gyfer ACDCFE.

### **Athrawon:**

**Rôl:** Bod yn ymwybodol o'r modd y gellir datblygu ACDCFE o fewn eu pwnc ac o fewn eu gofalon bugeiliol. Cynllunio i gynnwys ACDCFE yn eu haddysgu o ddydd i ddydd ac i'r dyfodol. Cefnogi disgyblion wrth iddynt ddatblygu ACDCFE e.e. trwy gefnogi gwaith yr Eco Gyngor a Chyngor yr Ysgol.

## Canlyniadau addysgol:

Cysyniad Allweddol	Canlyniadau	Enghreifftiau
<b>Cyd-ddibyniaeth</b>	<p>Geilw'r cysyniad hwn am ddealltwriaeth o'r dolennau a'r cyswllt sy'n bodoli rhwng pob agwedd o fywyd pobol a lleoliadau ar lefel leol a byd-eang, a bod penderfyniadau a wneir mewn un man yn effeithio ar yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill. Dylai disgyblion ddod i ddeall bod popeth byw yn ddibynnol ar ei gilydd a dylent ddod i synhwyro bod gwerth i bopeth byw. Dylent ddatblygu dealltwriaeth bod yr hyn a wna pobol mewn mannau eraill yn cael effaith arnynt hwy, ar y lle maent yn byw, ar bobol eraill, ar blanhigion ac ar anifeiliaid. Dylent ddod yn fwy-fwy ymwybodol o'r cyd-destun byd-eang y mae masnach, diwydiant a threuliau'n gweithredu ynddo.</p>	<p>Materion lleol a byd-eang e.e. swami, corwyntoedd, llifogydd</p> <p>Pythefnos Masnach Deg a phrosiect BOB</p>
<b>Dinasyddiaeth a Stiardiaeth</b>	<p>Mae'r cysyniad hwn yn derbyn bod gan bobol hawliau a chyfrifoldebau i fod yn rhan o benderfyniadau a wneir ac y dylai pawb gael rhoi ei farn ar yr hyn fydd yn digwydd yn y dyfodol. Golyga hyn fod yn rhaid bod yn barod i ymddwyn fel dinasyddion cyfrifol tra'n datblygu'r gallu i gyd-gysylltu ac i reoli newid ar lefel bersonol a chymdeithasol. Disgwylir i ddisgyblion weld a deall y cyswllt rhwng gwerthoedd personol, credoau ac ymddygiad a'r modd y gall yr ysgol a'r gymuned gael eu rheoli'n fwy cynaliadwy a thecach.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun Cydraddoldeb</li> <li>• Polisi a gweithgareddau gwrth-fwlian</li> <li>• Gwrth-hiliaeth / Stereoteipio</li> <li>• Elusennau</li> <li>• Ysgolion Iach</li> <li>• Teulu</li> <li>• Gwobrau Eco ysgolion ac Ysgolion Iach</li> <li>• Ail-gylchu</li> <li>• Masnach Deg</li> </ul>
<b>Anghenion a hawliau cenedlaethau i ddod</b>	<p>Golyga'r cysyniad hwn ddysgu sut y gallwn fyw bywyd sy'n ystyriol o hawliau ac anghenion eraill, gan sylweddoli y bydd gan yr hyn a wnawn heddiw oblygiadau ar gyfer bywyd yn y dyfodol e.e. gallai trafodaethau gynnwys hawliau plentyn, hawliau cyffredin dynoliaeth a newidiadau cynaliadwy.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgol/cymuned</li> <li>• Rheolau</li> <li>• Cyngor ysgol</li> <li>• Hawliau plentyn</li> <li>• Polisi Ymddygiad a Chynhwysiad</li> </ul>

Cysyniad Allweddol	Canlyniadau	Enghreifftiau
<b>Amrywiaeth</b>	Mae'r cysyniad hwn yn ymwneud â deall pwysigrwydd a gwerth amrywiaeth ym mywydau pobol – yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn fiolegol ac â sylweddoli bod ein bywydau i gyd yn dlotach heb y fath amrywiaeth. Trwy ddysgu, dylai disgyblion werthfawrogi'r amrywiaeth diwylliannol a biolegol sydd o fewn yr ysgol a'r ardal ac yn y pen draw, dylent allu cymryd rhan mewn trafodaethau ar newidiadau gwleidyddol, technolegol ac economaidd sy'n llesteirio amrywiaeth a chynladwyaeth a myfyrio ar y trafodaethau hynny.	Cydraddoldeb, Amrywiaeth  Rhaglen ABCh – Addysg Iechyd  Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth a Chwricwlwm AG  Gwasanaethau boreol a gwaith Cwricwlwm Cymreig
<b>Ansawdd bywyd, Cyfiawnder a thegwch</b>	Mae'r cysyniad hwn yn derbyn bod yn rhaid i unrhyw ddatblygiad, os yw am fod yn gynaliadwy, fod o fantais i bobol mewn ffordd deg. Mae'n ymwneud â gwella bywydau pawb. Ar lefel sylfaenol, golyga ddeall y gwahaniaethau sylfaenol rhwng angen ac eisiau ac am ddatblygu ymdeimlad o degwch a pharch. Golygfa hefyd ddeall y gwahaniaeth rhwng ansawdd bywyd a safon byw ac y dylid ymdrechu i ddarparu ansawdd bywyd da i bobol ar lefel leol, cenedlaethol a byd-eang, ynghyd â gwerthfawrogi pam fod cyfiawnder a thegwch yn hanfodol i gymdeithas gynaliadwy.	Gweithgareddau Masnach Deg ac elusennol  Gwaith gwirfoddol ac oriau cymunedol  Rhaglen ABCh a BAC
<b>Newid cynaliadwy</b>	Mae'r cysyniad hwn yn hyrwyddo'r ddealltwriaeth nad oes terfyn i'r modd y gall y byd, yn enwedig gwledydd cyfoethog, ddatblygu. Gall canlyniadau twf heb ei reoli a thwf anghynaliadwy olygu annhegwch gwaeth rhwng gwahanol grwpiau, caledi, a dirywiad yn yr amgylchfyd, a fydd o anfantais i bawb. Cymhellir disgyblion i ddeall sut y gellir rheoli eu cartrefi a'u hysgol yn fwy cynaliadwy ac i gwestiynu penderfyniadau, arferion a phrosesau sy'n effeithio ar faterion yn ymwneud â datblygiadau cynaliadwy.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ailgylchu</li> <li>• Eco-ysgolion</li> <li>• Bwyta'n Iach</li> <li>• Defnyddio tir yr ysgol</li> <li>• Llwybrau diogel i'r ysgol</li> <li>• Siediau beics yn y dyfodol</li> <li>• Cerdded/rhannu lifft</li> <li>• Gwasanaethau boreol</li> <li>• Prosiect gardd Blwyddyn 7</li> </ul>
<b>Ansicrwydd a rhagofal</b>	Golyga'r cysyniad hwn sylweddoli y dylai pobol, oherwydd eu bod yn dysgu drwy gydol yr amser ac y gallai eu gweithredoedd ddwyn canlyniadau annisgwyl, gymryd agwedd bwylog a chwilfrydig tuag at les y byd a'i bobloedd. Golyga hyn ddeall fod pobol wahanol am wneud pethau mewn ffordd wahanol, a gallu gwrandao ar ddadleuon a phwyso a mesur tystiolaeth yn ofalus. Fel hyn dylai disgyblion allu meddwl yn feirniadol, yn drefnus ac yn greadigol am ACDCFE.	Agweddau a gwerthoedd  Stereoteipiau  Rhagfarn (papurau newydd/Cyfyngau)  Sgiliau meddwl

Cysyniad Allweddol	Canlyniadau	Enghreifftiau
<b>Gwerthoedd a chanfyddiadau</b>	Cynorthwya'r cysyniad hwn i ddatblygu asesiad beirniadol o ddelweddau a gwybodaeth am economïau, amgylcheddau a phobloedd yn lleol, cenedlaethol a byd-eang. Deuir yn fwy ymwybodol o'r effaith a gaiff y rhain ar agweddau a gwerthoedd pobol a'r modd y gall gwybodaeth ddetholedig gyfrannu tuag at stereoteipio a rhagfarn.	Heriol  Stereoteipiau – e.e. yn ABCh, AG, Daearyddiaeth, pynciau Iaith ...
<b>Datrys gwrthdaro</b>	Mae'r cysyniad hwn yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r modd y gall gwrthdrawiadau rwystro datblygiadau a bod yn risg i ni i gyd, a pham fod angen eu datrys a hyrwyddo harmoni. Mae'n datblygu sgiliau dysgu trafod, negydu ac ymateb i wrthdaro personol a chyffredinol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyngor Ysgol a Fforwm Llais y Disgybl</li> <li>• Mentora cyfoedion a phrosiectau adfer tegwch</li> <li>• Disgwyliadau a rheolau dosbarth/ ysgol</li> </ul>